# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd ar nos Lun 20fed o Ionawr 2020 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas, Simon Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un Cynghorydd ddatgan buddiant

3. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

Nid oedd diweddariad o safbwynt y Clwb Pêl-droed, gyda'r cygnor yn disgwyl ymateb y clwb o safbwynt trwydded 5 blwyddyn. Yn benodol, a fyddai'n dderbyniol i Gymdeithas Bêl-droed Cymru.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

4. Derbyn cofnodion 21 Hydref 2019:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101680 | £183.37 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101681 | £45.80 |
| Cyngor Gwynedd | Toiledau | 101682 | £2,000.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwilio 2018/19 | 101683 | £186.00 |
| Swyddfa Archwilio | Archwilio 17/18 a 18/19 | 101684 | £497.50 |
| B Gwilym | Cyflog | 101685 | £366.74 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101686 | £91.60 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

6. Cais Ariannol - Dail Dysynni:

**PENDERFYNIAD:** I'w ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2020.

7. Cais Ariannol - Treialan Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 :

**PENDERFYNIAD:** I'w ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2020.

8. Cais Ariannol - Bobath - Canolfan Therapi Plant Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I'w ystyried yng nghyfarfod mis Chwefror 2020.

9. Cyngor Tref Tywyn - Dathliadau i nodi Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop:

**PENDERFYNIAD:** Gadael y mater ar y bwrdd.
Gofyn i Gyngor Tref Tywyn beth yw eu bwriad i nodi'r diwrnod.

10. Cyngor Tref Tywyn - Tywyn and District Spotlight Awards:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth a dymuno'n dda i'r unigolion sydd wedi eu henwebu.

11. Cyngor Tref Tywyn - Cyfoeth Naturiol Cymru - Gweithdy: Llunio Datganiad Ardal:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Cae Chwarae Maes Hyfryd:

**PENDERFYNIAD:** I ymateb i gais Cyngor Gwynedd gan egluro bod Cyngor Cymuned Bryncrug eisoes yn gyfrifol am un cae, a nid yw'r cyngor yn medru gweld y ffordd yn glir ar hyn o bryd.

13. Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith Mis Rhagfyr 2019:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Tai Teg - Cofrestr Tai Fforddiadwy:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth parthed yr ymgynghoriad fydd yn cychwyn ym mis Chwefror.
I roi copi o'r poster ar yr hysbysfwrdd.

15. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - The Grange, Cil Cemmaes, Bryncrug, LL36 9RG (NP5/55/36C):

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

16. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – Tynllwyn Hen, Bryncrug, LL36 9RE (NP5/55/21C):

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

17. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad - Cynllun Eryri:

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

18. Llywodraeth Cymru - Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Pont newydd dros Afon Dyfi):

**PENDERFYNIAD:** Derbyn y wybodaeth.

19. Llythyr gan drigolyn - Tai Gwag yn y pentref:

**PENDERFYNIAD:** I anfon y llythyr ymlaen at Adran Dai Cyngor Gwynedd gan ofyn i swyddog fynychu cyfarfod o'r cyngor.

20. Cyfethol aelodau i'r Cyngor:

**PENDERFYNIAD:** Cynghorwyr i lunio rhestr o unigolion y medr cysylltu â hwy.

21. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Cyfreithiol - Cau Ffordd B4405, Talyllyn:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

22. BDO - Cyfrifon 2017/18 - Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth parthed cronfeydd wrth gefn y Cyngor. I glustnodi cyfran o'r arian tuag at prynu offer newydd i'r cae chwarae er mwyn lleihau'r cronfeydd wrth-gefn.

23. BDO - Cyfrifon 2018/19 - Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth
I edrych ar systemau ariannol y Cyngor gan edrych ar y materion godwyd gan yr archwilydd mewnol

24. Adolygu gwariant o Ebrill 2019 i Ragfyr 2019:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb. Nodwyd bod nifer o anfonebau i am symiau uchel yn cyrraedd yn ystod y misoedd nesaf e.e. cynnal a chadw'r pafiliwn, yswiriant a'r clwb ieuenctid.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu £6,000 o wariant i'w wneud o Ionawr 2020 hyd at Mawrth 2020, gyda oddeutu £20,000 ar ôl ym malansau'r Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

25. Gosod cyllideb ar gyfer 2020/2021:

| **CYLLIDEB** | **2020/2021** |
|---|---|
| CLERC - CYFLOG | £1,435.00 |
| CLERC - YG | £200.00 |
| CLERC - TEITHIO | £500.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | £75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | £50.00 |
| GWEINYDDOL - POSTIO | £90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | £220.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | £100.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | £100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | £1,000.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | £500.00 |
| PENTREF - BLODAU | £350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | £100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | £250.00 |
| PENTREF - TOILED | £2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | £1,600.00 |
| CAE - TRYDAN | £50.00 |
| CAE - PAFILIWN | £1,000.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | £1,000.00 |
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | £5,000.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | £600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | £120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | £750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | £110.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | £650.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | £150.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | £285.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | £0.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | £200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | £100.00 |
| AELODAU - LWFANS | £1,350.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | £300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | £0.00 |
| **CYFANSWM** | **£20,235.00** |

**PENDERFYNIAD:** I osod cyllideb fel yr uchod ar gyfer 2020/2021, sef £20,235.

26. Gosod y bresept ar gyfer 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio’r mater a chynnal cyfarfod ar nos Fawrth, 28ain Ionawr 2020.

27. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nid oedd dim i’w nodi.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

28. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd y canlynol:
-Nid oedd clwb ar y nos Lun gyntaf yn Ionawr.
-Yr oedd y clwb wedi cael ei gynnal ar yr ail nos Lun ond nid oedd yr un unigolyn ifanc wedi mynychu'r clwb.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I adolygu y sefyllfa parthed cynnal y clwb o safbwynt niferoedd isel sydd yn mynychu yng nghyfarfod mis Mawrth 2020.

29. Adroddiad y Cynghorydd Sizr:

Adroddwyd y canlynol:
-Yn derbyn cwynion am ysbwriel sydd ar hyd y ffordd ar ôl i Gyngor Gwynedd gasglu ailgylchu. Bod trefniadau y gweithwyr ailgylchu wedi ei newid yn Arfon "knock and finish"
-Deiseb ar-lein yn gofyn am lwybr cyhoeddus rhwng Maeshyfryd a Phen-y-Bont

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

30. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:25pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................